**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**20 Tachwedd 2025**

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) ("Rheoliadau 2025") yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio yng Nghymru i'r gronfa ardrethi annomestig.

2. Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio Atodlen 4 (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) i Reoliadau 1992 er mwyn sicrhau bod y sail ar gyfer cyfrifo cyfraniadau gan awdurdodau bilio yn parhau yn gyfredol ac i alluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27. Caiff y ffigurau yn Atodlen 4 i Reoliadau 1992 eu diwygio bob blwyddyn.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

## Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae paragraff 4(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn nodi pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w gwneud gan awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi annomestig.

5. Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau o dan baragraff 4(1) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Wedi hynny, trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

6. Cafodd Deddf 1988 ei diwygio gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 gan ddarparu'n benodol bod y pwerau amrywiol yn Atodlen 8 i Ddeddf 1988 (gan gynnwys y pŵer i wneud Rheoliadau 2025) wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

7. Mae Rheoliadau 2025 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

8. Er mwyn i Reoliadau 2025 gael effaith ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, mae paragraff 4(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid iddynt ddod i rym cyn 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid i Reoliadau 2025 ddod i rym, felly, erbyn 31 Rhagfyr 2025 fan bellaf, i gael effaith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio dalu cyfraniadau ardrethu annomestig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardrethi annomestig y maent yn eu casglu oddi wrth eiddo yn eu hardaloedd. Telir yr holl ardrethi a gesglir gan awdurdodau

bilio i’r gronfa ardrethi annomestig ynghyd â’r ardrethi a gesglir gan Lywodraeth Cymru oddi wrth dalwyr ardrethi’r rhestr ganolog.

10. Dosberthir y refeniw cyfunol i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chomisiynwyr heddlu a throseddu Cymru ar sail ffigurau poblogaeth oedolion, a hynny yn rhan o’r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Mae awdurdodau bilio yn gwneud taliadau i’r gronfa yn seiliedig ar amcangyfrifon a gwblheir ganddynt cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae’r awdurdodau bilio wedyn yn cyflwyno ffurflenni wedi’u harchwilio ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac yn cael taliadau oddi wrth Weinidogion Cymru, neu’n gwneud taliadau ychwanegol i’r gronfa fel y bo’n briodol.

11. Effaith Rheoliadau 2025 yw diweddaru’r ffigurau poblogaeth oedolion drwy amnewid Atodlen 4 newydd i Reoliadau 1992. Caiff y ffigurau poblogaeth oedolion eu diweddaru’n flynyddol ac fe’u defnyddir i bennu trothwy er mwyn galluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau amodol i’r gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27.

**Ymgynghori**

12. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau 2025. Caiff y ffigurau poblogaeth eu diweddaru’n flynyddol ac nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau polisi. Dim ond o ddiddordeb i’r awdurdodau bilio perthnasol y mae Rheoliadau 2025 ac nid oes ganddynt unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

13. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i lunio ar gyfer Rheoliadau 2025 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i Reoliadau 1992 sy’n cadw’r sefyllfa bolisi bresennol ac nid ydynt, wrth wneud hynny, yn newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd sylweddol. Mae hyn yn cydymffurfio â pharagraff 3.2 o’r polisi a nodir yng nghod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.